| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | **Cabinet** |
| Dyddiad y Cyfarfod: | **29 Mawrth 2016** |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | **Cyng Hugh Evans, Arweinydd** |
| Awdur yr Adroddiad: | **Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus** |
| Teitl: | Y Rhyl yn Symud Ymlaen – Adolygu a Chamau Nesaf |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Rhyl wedi bod yn flaenoriaeth adfywio ers dros 10 mlynedd. Mabwysiadwyd y blaenoriaethau cyntaf yn 2004. Yn 2008, cafodd y Rhyl ei gynnwys yn Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru. Cafodd blaenoriaethau eu hadolygu yn 2011 ac roedd y Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am arwain y rhaglen waith Cymdogaethau a Lleoedd. Daeth hyn yn rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen y Cyngor.

5 mlynedd ar ôl hynny mae'n briodol asesu cynnydd a chytuno ar yr hyn y dylai ffurf gweithgarwch adfywio yn y dyfodol fod. Mae rhaglen Adfywio Llywodraeth Cymru ar gyfer Arfordir Gogledd Cymru yn awr wedi dod i ben, gyda chyllid yn awr ar gael ledled Cymru drwy'r mentrau Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a Threchu Thlodi, y mae'n ofynnol bod â strategaethau adfywio cydlynol ar eu cyfer.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu adolygiad o'r cynnydd gyda Raglen Adfywio y Rhyl yn Symud Ymlaen ac asesiad o le mae angen i'r Rhaglen fynd nesaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae'r cabinet yn cael ei wahodd i

1. Nodi'r cynnydd a wnaed â phrosiectau adfywio yn y Rhyl;
2. Cymeradwyo'r cynigion ar gyfer y cam nesaf o weithgaredd adfywio yn y Rhyl a nodir isod ac a ddangosir yn Atodiad 2 a chytuno y dylid eu defnyddio i lywio blaenoriaethau ar gyfer unrhyw gyllid adfywio a allai fod ar gael; ac
3. Cymeradwyo'r trefniadau rheoli rhaglen a llywodraethu a nodir isod ac a ddangosir yn Atodiad 3

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Fel llawer o drefi glan môr eraill, gwnaeth y Rhyl ddioddef yn sgil y dirywiad mewn gwyliau domestig. Wrth i nifer yr ymwelwyr ostwng, dechreuodd busnesau yn y dref ddioddef. Daeth cyn dai llety yn Gartrefi Amlfeddiannaeth ac arweiniodd gwerth eiddo isel at safonau ac amodau gwael. Daeth rhannau o'r dref i weld crynodiadau o breswylwyr sydd â phroblemau anghenion cymdeithasol cymhleth ac amddifadedd

lluosog. Cydnabu Cyngor Sir Ddinbych y broblem hon ac yn 2004 mabwysiadodd ei Strategaeth gyntaf a Blaenoriaethau Buddsoddi Allweddol ar gyfer y Rhyl.

4.2. Ym mis Tachwedd 2008, sefydlodd Llywodraeth Cymru, Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru. Gan gwmpasu'r arfordir o Brestatyn i Fochdre, roedd yr Ardal yn anelu at fynd i'r afael â'r materion a oedd yn rhwystro ymwelwyr, nodi cyfleoedd i adfywio gweithgareddau presennol a thyfu gweithgareddau newydd, mynd i'r afael â bylchau seilwaith gyda'r nod o annog buddsoddiad gan y sector preifat a gwella'r ardal ar gyfer preswylwyr lleol, gan ei wneud yn lle gwell i fyw.

4.3. Daeth adolygiad yn 2010 i ben gyda Fframwaith Adfywio Strategol, a'i nodau oedd ***Ail-greu'r Rhyl fel lle y mae pobl yn dewis byw ac aros ynddo*** ac ***Ail-ddarganfod y Rhyl fel lle i ymweld ag ef***. O dan y fframwaith hwn, roedd gweithgaredd adfywio wedi'i rannu rhwng Cymdogaethau a Lleoedd, Pobl a Chymunedau, ac Economi a Sgiliau. Cymerodd y Cyngor gyfrifoldeb dros yr agenda Cymdogaethau a Lleoedd. Daeth hyn yn rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen y Cyngor.Cytunwyd ar yr amcanion fel:

a) Creu marchnad dai gynaliadwy yng Ngorllewin y Rhyl, lle mae pobl yn dewis byw
b) Mwy o bobl yn ymweld â'r Rhyl am gynnig hamdden a thwristiaeth deniadol a gynhelir yn dda
c) Ystod dda o siopau a gwasanaethau yng nghanol y dref, mewn amgylchedd stryd ansawdd uchel, glân
d) Busnesau newydd yn lleoli yn y Rhyl a chyfleoedd gwaith newydd yn cael eu creu

4.5. Nodwyd 55 o brosiectau unigol i gyflwyno'r rhaglen. Daeth yn amlwg bod gwneud cynnydd ar bob un o'r 55 o brosiectau yn amhosibl. Cynhaliwyd proses symleiddio yn ystod 2012 a chytunwyd ar set ddiwygiedig o brosiectau.

4.6. Cynhyrchwyd Adroddiad dros dro (Atodiad 1a) yn 2013 i asesu cynnydd ar draws y 4 ffrwd waith ac i osod blaenoriaethau ar gyfer y 2 flynedd nesaf (h.y. hyd at 2015). Dangosodd hyn gynnydd da yn erbyn blaenoriaethau 2012. 3 blynedd yn ddiweddarach, mae'r rhan fwyaf o weddill y gwaith bellach naill ai wedi'i gwblhau neu yn gwneud cynnydd da. Mae'r prif eithriadau yn ymwneud â gweithio ar adfywio Canol y Dref.

4.7. Gan droi at y canlyniadau, mae'n anodd mesur i ba raddau y mae'r cyfan o'r gweithgaredd uchod yn cael effaith ar ganlyniadau ar gyfer y Rhyl - ei breswylwyr a busnesau. Mae buddsoddiad mewn adfywio yn cael ei gydnabod fel un sydd ag amserau arwain i mewn hir cyn y gall gwelliannau strwythurol i ganlyniadau gael eu gweld. Un ffynhonnell wybodaeth yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) ac mae hyn yn dangos darlun cymysg, gyda rhai cymdogaethau'n gwella eu safle cymharol ond mae eraill yn gwaethygu.

4.8. O dan y ffigurau pennawd, mae incwm ac amddifadedd cyflogaeth yn parhau i fod yn bryder a heb ddangos unrhyw welliant sylweddol eto. Mae'r llwyddiannau mwyaf ym meysydd Addysg a Diogelwch Cymunedol, gydag Addysg yn benodol yn dangos gwelliannau sylweddol. Mae hyn yn galonogol o ran rhagolygon pobl ifanc yn y Rhyl

heddiw a'u cyfleoedd mewn bywyd.

4.9. Roedd y Cynllun Cyflawni Cymdogaethau a Lleoedd yn ceisio mesur set wahanol o ddangosyddion i ddeall profiadau ‘ar lawr gwlad’ yn y Rhyl - yn benodol Nifer yr Ymwelwyr a Pherfformiad Manwerthu. Mae dangosfwrdd gyda mwy o ffocws wedi’i ddatblygu hefyd ar gyfer menter Tai Gorllewin y Rhyl. Mae perfformiad ar y rhain yn gymysg gyda nifer yr ymwelwyr yn gyfnewidiol a dangosyddion Canol y Dref yn dangos achos y pryder yn parhau. Yn anecdotaidd, rydym yn gwybod bod yr amgylchedd masnachu ar y Stryd Fawr yn parhau i fod yn heriol iawn. Mae incwm aelwydydd isel mewn rhannau helaeth o'r dref wedi’i gyfuno â cholli nifer ymwelwyr canol y dref yn barhaus yn cymryd ei doll ar fusnesau canol y dref. Mae dangosyddion sy'n ymwneud â thai yn dangos arwyddion o welliant.

4.10. Mae'n amlwg nad yw'r daith dros Adfywio yn y Rhyl wedi'i gwblhau eto. Mae canlyniadau yn dal i fod yn dlotach nag y byddem yn ei hoffi ac nid yw’r dref eto mewn sefyllfa lle bydd y farchnad yn mynd i'r afael â'r gwendidau hyn ar ei ben ei hun. Nid yw’r Rhyl wedi symud eto o ardal y mae angen adfywio i un sydd yn barod i ymateb i ddatblygiad economaidd mwy prif ffrwd. Mae angen cymryd camau pellach i greu'r pwynt troi.

4.11. Dylai cam nesaf o weithgaredd adfywio adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Dylai'r ffocws fod ar weithgareddau sy'n gwella nifer yr ymwelwyr i'r dref, yn denu mwy o breswylwyr economaidd weithgar i fyw yn y Rhyl, goresgyn enw gwael Rhyl a meithrin hyder a thwf busnes. Mae angen creu cyswllt agosach rhwng y gweithgarwch adfywio ffisegol hwn a gweithgareddau ehangach y Cyngor (a'i bartneriaid) ar gyfer mynd i'r afael â materion cymdeithasol a mynd i'r afael â thlodi.

4.12. Gan gymryd pob un o'r uchod i ystyriaeth, argymhellir y canlynol:

a) Creu rhaglen gyflenwi Adfywio'r Rhyl newydd gyda 3 ffrwd waith sy'n cynnwys prosiectau sy'n canolbwyntio ar Dwristiaeth ac Ymwelwyr, Canol y Dref, a Byw a Gweithio yn y Rhyl (gweler Atodiad 2)

b) Mae pob prosiect yn cael swyddog gweithredol prosiect wedi ei neilltuo ac ar y cyd mae’r swyddogion hyn yn ffurfio Tîm Adfywio rhithwir y Cyngor

c) Noddwr y Rhaglen yn gyffredinol yw’r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros yr Economi a’r Parth Cyhoeddus o hyd

d) Mae Grŵp Cyflawni Rhaglen yn cael ei sefydlu, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol, er mwyn cydlynu'r prosiectau unigol. Dylai cynrychiolydd o Fwrdd Trechu Tlodi y Cyngor fod yn bresennol yn y Grŵp Cyflawni i alinio gweithgareddau.

e) Mae llywodraethu strategol y rhaglen gyffredinol yn cael ei ddarparu gan y Bwrdd Gwella Cynllun Corfforaethol sydd newydd ei ffurfio i sicrhau darpariaeth yn erbyn targedau a blaenoriaethau’r Cynllun Corfforaethol.

f) Mae craffu ffurfiol y Rhaglen a'i brosiectau unigol yn cael ei gynnal drwy Bwyllgorau Craffu'r Cyngor fel sy'n ofynnol

g) Mae Grŵp Cyfeirio Lleol sy'n cynnwys y cynrychiolwyr etholedig yn y Rhyl (Cynghorwyr Sir a Thref, yr AC a'r AS) yn cael ei sefydlu i fonitro gweithrediad a rhoi arweiniad ar lefel leol

h) Mae cynllun cyfathrebu yn cael ei ddatblygu i sicrhau cyfathrebu ehangach, yn enwedig â'r gymuned leol

i) Mae mwy o weithgarwch datblygu economaidd arferol yn cael ei arwain gan Dîm Datblygu Economaidd a Busnes y Cyngor drwy'r prosiectau Twf Twristiaeth, Twf Canol y Dref a Chymorth Busnesau sy'n cael eu darparu ar gyfer y Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Adfywio'r Rhyl wedi bod yn flaenoriaeth y Cyngor ers 2004 ac mae'n parhau i ymddangos fel blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol cyfredol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd costau penodol yn cael eu penderfynu drwy ffrydiau gwaith prosiectau unigol. Mae rhywfaint o arian penodedig yn bodoli eisoes - trwy gronfa Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, er enghraifft. Mae ffynonellau cyllid eraill yn debygol o ddod ar gael. Mae'n hanfodol fod gan y Cyngor ddarlun clir o'i flaenoriaethau gwario yn y Rhyl er mwyn galluogi ceisiadau cydlynol am arian i gael eu cyflwyno ac osgoi 'mynd ar drywydd grantiau' sy'n tynnu sylw oddi ar weithgareddau pwysig.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AoEaG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen AEC ar gyfer yr adroddiad hwn. Bydd effaith ar gydraddoldeb yn cael ei asesu wrth i brosiectau unigol gael eu datblygu. Bydd adfywio llwyddiannus yn y Rhyl yn gwella lles cyffredinol y gymuned leol - ei ffyniant, gwydnwch, iechyd a chydlyniant - a bydd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sylweddol ar hyn o bryd sy'n bodoli yn Sir Ddinbych.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cafodd adolygiad o gynnydd ei wneud gydag aelodau Bwrdd y Rhyl yn Symud Ymlaen yn ystod 2015. Cafodd asesiad manylach ar wahân ei wneud gyda chynrychiolwyr gwasanaeth yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Mae'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn wedi eu rhannu gydag Aelodau etholedig lleol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r rhaglen yn nodi nifer o brosiectau uchelgeisiol. Mae'r adroddiad yn egluro blaenoriaethau'r rhaglen ac yn gosod allan strwythur llywodraethu clir. O ystyried y lefel bosibl o fuddsoddiad ariannol o nifer o ffynonellau, mae'n hanfodol bod blaenoriaethau cynllunio clir wedi eu sefydlu a bod trefniadau llywodraethu yn gadarn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y brif risg yw na fydd gweithgareddau adfywio yn cael yr effaith y byddem yn bwriadu iddynt ei chael a bod y dangosyddion amddifadedd lluosog yn parhau i fod yn wael ar gyfer y Rhyl. Mae'r strategaeth a nodir yn yr adroddiad hwn yn anelu at leihau'r risg hon drwy bennu dull clir, cydlynol gyda rhesymeg a blaenoriaethau clir, a gwneud gwell cysylltiadau rhwng y 3 piler adfywio lle, pobl a'r economi. Bydd risgiau ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu nodi a'u rheoli drwy ddulliau rheoli prosiect safonol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 - pŵer i wneud unrhyw beth sy’n debygol o hyrwyddo neu wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal.